**"A"**

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, **13eg Ionawr, 2020**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

*Presennol*: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Gwenan Griffith
Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir

## 67. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Llongyfarchodd Y Cynghorydd Elin Hughes ar ei llwyddiant yn dod i'r rownd derfynol ar y rhaglen "Rhannu" ar S4C.

## 68. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

## 69. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 9fed Rhagfyr, 2019, (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd David Brunelli ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones).

**Mater yn codi – Eitem 64 – Materion Iechyd**

**Cyflwynwyd** atebiad Mr. Dave Shaw, Rheolwr Meddygfa Rhydbach, Botwnnog, i gwynion anfonwyd i'w sylw (copi o'r atebiad wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor gyda'r rhaglen).

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

## 70. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais C19/1130/32/LL – codi adeilad i storio tail sych yn Bryn Hunog Fawr, Rhoshirwaun.
(b) Cais C19/1128/32/LL – codi to dros fuarth y fferm – Bron Llwyd Fawr, Botwnnog.

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais uchod.

## 71. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**(a) Cyflwynwyd** atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor Cyngor Gwynedd, dyddiedig 13eg Rhagfyr, 2019, i gwynion anfonwyd i'w sylw fel a ganlyn:

1. **“Pont Felin Ganol**
   Eich sylw wedi ei gyfeirio ymlaen at Dîm Strwythurau’r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
2. **Ty’n Coed am Felin Ganol**
   Y gwaith glanhau cwterydd wedi ei gynnwys ar raglen waith y criw ymatebol.
3. **Ty Mawr Capel**
   Yr angen am waith yma wedi ei adnabod yn barod ac eisoes wedi ei gynnwys ar y rhestr waith cynnal ddymunol. Detholir gwaith o’r rhestr ar sail blaenoriaeth fel y bydd adnoddau’n caniatau.
4. **Graig Ewig am Fotwnnog**
   Gwaith glanhau yn cymryd lle yma ar hyn o bryd.
5. **Lon Las am Sarn Fawr, Sarn**
   Mae ymchwil pellach angen ei wneud yma er ceisio canfod tarddiad y gorlifiad. Ni ddigwydd hyn ond yn ystod cyfnod o law eithriadol. A wyddoch am drigolyn neu a oes gan aelod lleol eich Cyngor tybed wybodaeth leol o’r dirwedd a phatrwm ffosydd hanesyddol all ein helpu? Os oes byddai yn fanteisiol cynnal archwiliad safle ar y cyd.
6. **Tan y Ffordd, Bryncroes**
   Mae ymweld a’r safle yma wedi ei gynnwys ar restr waith y peiriant glanhau cwterydd.
7. **Saithbont – Trwen, Botwnnog**
   Mae cyflwr y llecyn ffordd yma o fewn goddefiad risg, fe gedwir golwg ar y safle yn nhrefn y gyfundrefn archwiliadau.
8. **Swn y Nant, Sarn**
   Mae’r adwy yma a rhediad y tir at yr eiddo islaw graddfa a lefel y briffordd gyfagos. Gyda datblygiadau newydd neu eiddo trigiannol hanesyddol yn y sefylfla yma, drwg gennyf hysbysu nad oes dyletswydd gofal ar awdurdod ffyrdd i osod cerbiau isel ar draws mynedfeydd. Mae’r archwiliwr priffyrdd wedi cysylltu eisoes a Mr. J. Hillier i esbonio’r sefyllfa.”

**Penderfynwyd** derbyn yr ymateb a chytunodd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Glyn Roberts, i gyfarfod yr Archwiliwr Priffyrdd, ar y safle i drafod y mater a nodir yng nghymal (5) uchod.

**(b) Penderfynwyd** ymhellach tynnu sylw Peiriannydd Ardal Dwyfor at gyflwr difrifol y ffordd o benlon Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes, a gofyn am gael ei hadfer mor fuan a bo modd.

**(c)Tra’n trafod materion ffyrdd** cyfeiriodd y Cadeirydd at yr arwydd ‘Eglwys Santes Mair Bryncroes sydd wedi ei osod ar y gyffordd at y pentref ond yn anffodus unochrog yw ac yn cyfeirio’r drafnidiaeth o ochr Aberdaron yn unig at yr adeilad.

**Penderfynwyd** gofyn i’r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd am gael gosod arwydd arall ychwanegol ar y postyn ac fod hwnnw i arwain y drafnidiaeth o ochr Pwllheli at yr adeliad.
**Rhoddwyd hawl i** symud ymlaen i gael arwydd ychwanegol gan wario uchafswm o £350 am y ddau arwydd.

(ch) **Nodwyd er gwybodaeth y byddai** ffyrdd yn ardal Bryncroes (ochr Ty Engan/Graig Ewig i fyny am Tegfryn, Bryncroes) yn cael eu cau dros dro – Y Gorchymyn mewn grym o 21ain Ionawr, 2020 ac yn "parhau mewn grym am gyfnod na fydd hwy na chwe mis neu hyd nes y cwblheir y gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd, pa un bynnag fyddo gyntaf. Ar hyn o bryd disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua 28 diwrnod."

72. **MATERION IECHYD**

Ni chodwyd unrhyw fater.

73. **PRAESEPT 2020/21**

**Cyflwynwyd** adroddiad o Is-bwyllgor Ariannol a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson pryd yr oedd Y Cynghorwyr Glyn Roberts (Cadeirydd), David Brunelli, Ifor Owen a Glenys Williams yn bresennol.

Cyflwynwyd i'r Is-bwyllgor adroddiad o'r balansau ar 13eg Ionawr, 2020, ynghyd ac amcangyfrif o'r taliadau a ragwelir a ddaw yn ddyledus cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd o'r amcangyfrif uchod y byddai £6,345.67 o arian yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a nodwyd fod gan y Cyngor hawl i gyfrannu £8.32 yr etholwr tuag at geisiadau am gyfraniadau ariannol a hynny o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
Cyflwynwyd hefyd i sylw'r Is-bwyllgor ddrafft o'r Gyllideb ar gyfer 2019/20

Trafodwyd mewn manylder yr effaith o godi'r preasept, sydd ar hyn o bryd yn £5,500. Un ffactor a ysytirwyd oedd fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Foduan yn Awst 2021 a rhagwelir y byddai hyn yn chwyddo'r economi drwy'r Penrhyn yn gyfangwbl a byddai'r trethdalwyr yn elwa o hynny. Hefyd gwelwyd fod Cronfa'r Fynwent yn brin a chan mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd i'w chadw yn daclus ac mewn cyflwr da, yna teimlwyd y dylid trosglwyddo cyfran o'r arian o Gyfrif Cyfredol i Gyfrif y Fynwent.

Yn dilyn trafodaeth lawn penderfynwyd argymell i'r Cyngor llawn:

a) Drosglwyddo £1,000 o'r cyfrif cyfredol i Gronfa'r Fynwent.
b) Codi'r praesept £1,000 (h.y. i £6,500 am y flwyddyn 2020/21) ar sail fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r ardal a byddai hynny'n chwyddo economi'r ardal.
   (Nodyn os ychwanegir £1,000 tuag at y praesept byddai hynny'n golygu fod pob ty yng Ngymuned Botwnnog yn talu £2.25 yn ychwanegol).

**Penderfynwyd**

(1) Derbyn adroddiad yr Is-bwyllgor gyda diolch.
(2) Codi'r praesept i £6,500 am y flwyddyn 2020/21 a hynny ar sail argymhelliad yr Is-bwyllgor.
(3) Awdurdodi'r Cynghorydd Glyn Roberts a Glenys Williams i edrych drwy Gytundeb y Clarc a'i addasu fel yn briodol ac adrodd i gyfarfod nesaf o'r Cyngor.

(Nodyn – rhanwyd copiau o’r nodiadau ynglyn a’r cyfrifon, Y Gyllideb, i oll o aelodau’r Cyngor).

## 74. CYFRANIADAU ARIANNOL

**Cyflwynwyd** ceisiadau am gyfraniadaun ariannol:

Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021 ym Moduan (deallwyd mai targed ar gyfer Cymuned Botwnnog oedd £7,500).
Cymdeithas Pared Dewi Sant Pwllheli

**Penderfynwyd cyfrannau fel a ganlyn:**

Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021 - £1,000 yn daladwy ym mis Chwefror, 2020, gydag ymrwymiad o £1,000 arall yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21.
Y taliad hwn yw wneud o Dan y Ddeddf Gwelliant 2000 ac adran S137 o LGA 1972.

Cymdeithas Pared Dewi Sant Pwllheli - £50.00

## 75. AWDURDOD I DALU

**Penderfynwyd** awdurdodi’r taliad a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Wynnstay am arwydd Diffibliwr | £27.50 + TAW |

## 76. GWOBR PENTREFI SIR GAERNARFON 2020

**Derbyniwyd** gwybodaeth drwy boster am y wobr uchod ac addawodd y Cadeirydd y byddai yn rhoi copiau yn yr ardal.